PROSBECTWS YSGOL 2010

www.builth-hs.powys.sch.uk

Annwyl Bawb,
Croeso i Ysgol Uwchradd Llanfair-ym-Muallt

Ein bwriad yw darparu cyfle i bob disgybl ddatblygu a chyrraedd eu potensial yn ôl eu gallu a'u dawn ac iddynt ddod yn ddysgwyr hyderus gydol oes. Rydym o'r farn mai allwedd ein llwyddiant yw'r awyrgylch arbennig a gofalus yr ydym yn ei greu trwy waith caled ac ymrwymiad llwyr pob un sy'n gysylltiedig â'r ysgol. Rydym yn ymfalchïo yn ein henw da fel ysgol gyfun ddwyieithog hapus, sy'n llwyddo ac yn ffynnu.

Anogwn y disgyblion i feithrin goddefgarwch a pharch at eraill sydd â barn ac agweddau gwahanol fel y gallant gymryd eu lle'n gyfrifol o fewn y gymdeithas. Mae'r cysylltiadau cadarn a chefnogol sy'n bodoli rhwng yr ysgol a chartrefi'r disgyblion a'r cymunedau lle maent yn byw ynddynt yn bwysig dros ben i ni. Credwn fod yr ysgol yn ganolog i'r gymuned ac mae pobl o bob cefndir yn ymweld â'r ysgol ac yn cyfrannu at yr addysg yr ydym yn ei darparu. Mae adroddiad yr Arolygwyr yn nodi fod "Llanfair-ym-Muallt yn hyrwyddo ac yn cyrraedd safonau uchel yn gyson mewn gweithgareddau academaidd, bugeiliol ac allgyrsiol ac oherwydd nifer sylweddol ei chryfderau, mae'r ysgol yn mwynhau'n haeddiannol hyder ei chymunedau. Mae nifer o'r ymwelwyr yn sylwi ar yr awyrgylch arbennig y maent yn ei deimlo pan fyddant yn dod i mewn i'r ysgol.

Rydym yn cynnig cwricwlwm ysgogol a chyfoethog gydag ystod eang o gyrsiau cyfrwng Cymraeg a Saesneg hyd at lefel 'A'. Darperir addysg eang hyd at un-ar-bymtheg oed lle sicrheir elfennau academaidd, cymdeithasol a galwedigaethol er mwyn helpu i ddatblygu'r unigolyn yn gyflawn. O safbwynt Ôl-16, mae'r cyrsiau'n fwy arbenigol a galwedigaethol. Rydym yn falch i gynnig Bagloriaeth Cymru ar lefel Ganolradd ac Uwch. Mae'r cymhwyster hwn yn ddatblygiad cenedlaethol cyffrous sy'n cydnabod y cymwysterau, sgiliau a phrofiadau dysgu pobl ifanc.

Mae canlyniadau uchel a chyson yr arholiadau'n gynnyrch o addysgu rhagorol, disgyblion brwdfrydig ac adnoddau da. Rydym wedi ymrwymo i wella'n cyfleusterau ac yn ddiweddar, symudom i adeilad a gostiodd £2 filiwn ac sydd wedi'i adeiladu'n bwrpasol ar y campws. Mae ynddo gegin newydd, bwyty, ystafelloedd cerdd a chelf, ystafell TG a 6 dosbarth ar gyfer addysgu Cymraeg. Yn ychwanegol, mae adnewyddu pellach wedi'i wneud yn y llyfrgell bresennol, ystafelloedd gwyddoniaeth a'r dyniaethau. Yn flynyddol, gwariwn arian sylweddol i uwchraddio'r cyfleusterau TG fel y gall y disgyblion elwa o'r dechnoleg ddiweddaraf. Rydym yn ddiolchgar i Ffrindiau'r Ysgol sy'n chwarae rhan amhrisiadwy er mwyn ein galluogi i wneud hyn. Gyda'r arian a godwyd yn ddiweddar, yr ydym wedi llwyddo I brynu torrwr laser i'r Adran Dechnoleg ac offer a chyfarpar ar gyfer y cwrs Safon A newydd mewn Technoleg Cerdd. Hefyd prynwyd offer ar gyfer y cwrs BTEC mewn Lletygarwch ac Arlwyo a fydd yn cael ei ddysgu mewn ystafell Dechnoleg Bwyd sydd newydd gael ei hatgyweirio at y pwrpas.
Mae bywyd yr ysgol yn amrywiol a chynhelir nifer o weithgareddau allgyrsiol. Mae'r cyfle i deithio tramor yn nodwedd amlwg o'r ysgol gydag ymweliadau cyfnewid i leoedd, megis Awstralia, Yr Unol Daleithiau, Ewrop a Phatagonia. Cynhaliwyd taith chwaraeon lwyddiannus i Awstralia ym mis Medi 2008. Credwn fod gweithgareddau allgyrsiol yn cyfoethogi profiad y disgyblion ac yn cyfrannu at y broses ddysgu ac yn annog hunanhyder.

Mae'r broses bontio rhwng y cynradd a'r Ysgol Uwchradd yn Llanfair-ym-Muallt yn llawer iawn mwy hamddenol oherwydd yr ymwelir yn gyson â'r ysgolion gan y disgyblion a'r athrawon. Mae'r disgyblion cynradd yn ymweld â ni'n gyson trwy gydol y flwyddyn er mwyn blasu ein cerddoriaeth, y ddarpariaeth gelf a drama ac i ddefnyddio ein cyfleusterau TG. Anogir ein disgyblion i fod yn elusennol a phob blwyddyn, codir symiau sylweddol o arian tuag at yr elusennau a enwebir gan y disgyblion.
Edrychaf ymlaen at eich cyfarfod a chydweithio gennych yn y dyfodol agos.
Mrs Shân E Davies (Pennaeth)
Math o Ysgol: Ysgol Gyfun Ddwyieithog 11-18,

Cyfeiriad yr Ysgol:	Ysgol Uwchradd Llanfair-ym-Muallt, , Heol y Coleg, Llanfair-ym-Muallt, Powys, LD2 3BW.
Ffôn:	01982 553292 Ffacs: 01982 553825
E-bost:	admin@builth-hs.powys.sch.uk
Website:	http://www.builth-hs.powys.sch.uk
Cantîn:	01982 553732
Canolfan Chwaraeon:	01982 552324
Swyddfa'r Ysgol:	Ar agor 8.00 am. - 5.00 pm. Yn ystod gwyliau'r disgyblion 9.00 am. - 2.30 pm.
Diwrnod Ysgol:	Cofrestru/Gwasanaeth boreol 8.45 - 9.00
	Gwers 1 9.00 - 10.00
	Gwers 2 10.00 - 11.00
	Egwyl 11.00 - 11.20
	Gwers 3 11.20 - 12.20
	Cinio 12.20 - 1.10
	Cofrestru 1.10 - 1.15
	Gwers 4 1.15 - 2.15
	Gwers 5 2.15 - 3.15
Y Bwyty:	Ar agor 11.00 - 11.20 12.20 - 1.15
Cyngor Sir Powys:	Mr. Paul Griffiths, Executive Director – People's Services, Powys County Council, County Hall, Llandrindod Wells, Powys, LD1 5LG Ffon: 01597 826000

AELODAU O'R CORFF LLYWODRAETHOL (GORFFENNAF 2009)

Cynrychiolwyr Cyngor Sir Powys:			
	David	Malcomson	Llwyn Einion, Llangamarch.
	Timothy	Van Rees	Abernant House, Llanwrtyd.
	Andrew	Powell	Llwyncynnar, Llanfihangel Brynpabuan.
	Avril	York	6, Church Street, Llanfair-ym-Muallt.
	Swydd wag		
Aelodau Cymunedol:	Brian	Reardon	Dolwye, 23 North Road, Llanfair-ym-Muallt
	Johnathan	Beagley	Pantgwyn, Hundred House, Llanfair-ym-Muallt.
	Kurt	Steyer	Aberduhonw Mill, Hay Road, Llanfair-ym-Muallt.
	Gwyneth	Rowlands	Swn Yr Avon, Station Rd., Llanwrtyd
	Kelvyn	Curry	Pen-y-Lan, Nantmel, Llandrindod.
Rhiant-Gynrychiolwyr:	Richard	Davies	Pwllgwilym, Cilmeri, Llanfair-ym-Muallt.
	Lynne	Evans	6 Tyle Heulog, Llanfair-ym-Muallt.
	Grace	Jones	Bracken Lodge, Aberedw, Llanfair-ym-Muallt.
	Bel	Crewe	Tan y Cefn, Rhaeadr.
	Celia	Jefferies	Ynyswye, Erwood, Llanfair-ym-Muallt.
	Lynda	Brown	Dingle View, Franksbridge.
Athro-Gynrychiolwyr:			
	Lucy	Lloyd	Cynghordy Hall, Cynghordy, Llandovery.
	David	Ronicle	13 Tyleheulog, Llanfair-ym-Muallt.
Cynrychiolydd y Staff:	Neil	Morris	2 Smithfield Row, Llanfair-ym-Muallt
Pennaeth:	Shân	Davies	Ysgol Uwchradd Llanfair-ym-Muallt
Cadeirydd:	Kurt	Steyer	
Is-Gadeirydd:	Grace	Jones	
Disgybl-Gynrychiolwyr:			
	Claire	James	
	Ryan	Holt	

Clerc y Corff Llywodraethol: Y Parch Philip Morris – gellir cysylltu ag ef yn yr ysgol.

Ni thelir treuliau i'r Llywodraethwyr.

TREFNIADAETH YR YSGOL

Tîm Arwain yr Ysgol

Pennaeth	Shân	Davies
Dirprwy Bennaeth	Colin	Rees
Pennaeth Cynorthwyol	Ionwen	Spowage
Uwch Reolwr y Cwricwlwm	Laura	Lewis
Uwch Reolwr Bugeiliol	David	Davies
Rheolwr Busnes	Paul	Cartmell

Arweinwyr Bugeiliol a Phenaethiaid Blwyddyn

Blwyddyn 7 a Phontio	Hayley	Williams
Blwyddyn 8	Sarah	Evans
Blwyddyn 9	Nia	MacMillan
Blwyddyn 10	Claire	Price
Blwyddyn 11	Lee	Powell

Pennaeth y Chweched Dosbarth Laura Lewis

Penaethiaid y Cyfadrannau.			**Ail yn y Gyfadran**
Saesneg a Drama	Kathryn	Williams	Rebecca Bailey
Cymraeg	Steve	Mason	
Mathemateg	Peter	Ward	
Gwyddoniaeth	Lucy	Lloyd	David Barlow

Arweinyddion Pynciau'r Cwricwlwm Cenedlaethol

Dylunio	Robyn Davies & Katy Rees	
Daearyddiaeth	David	Ronicle
Hanes	Meinir	Jones
Addysg Grefyddol	Hayley	Williams
Ieithoedd Tramor Modern	Loraine	Pedelty
Addysg Gorfforol	Maria	Williams
Celf	Helen	Flaherty
Cerddoriaeth	Elin	Ennis
Cefnogi Dysgu	Elizabeth	Evans

Cydlynydd Bagloriaeth Cymru Ionwen Spowage

Cydlynydd Cyfrwng Cymraeg Meinir Jones

Cydlynydd Profiad Gwaith Melinda Kennedy

Swyddog Arholiadau David Barlow

Staff Addysgu

Y Gyfadran Saesneg:

Saesneg, Astudiaethau Cyfathrebu	Kathryn	Williams	B.A., TAR
Saesneg	Judith	Sharp	B.A., M.A., TAR
Saesneg, Astudiaethau Cyfathrebu	Rebecca	Bailey	B.A., TAR

Saesneg, Almaeneg	Lynda	Hayward	B.A., M.A., TAR
Drama/Saesneg	Robyn	Lewis	B.A., TAR

Dylunio/Celf:

Dylunio/TD,	Robyn	Davies	B.Eng., TAR
Celf	Helen	Flaherty	B.A., TAR
Tecstilau/Arlwyo	Katy	Rees	B.A., TAR
TD, Bwyd	Catrin	Davies	B.A., TAR
Dylunio/TD,	Owen	Williams	B.A., TAR

Y Dyniaethau:

Daearyddiaeth	David	Ronicle	B.A. TAR
Daearyddiaeth,	Laura	Lewis	B.Sc., TAR
Daearyddiaeth	Claire	Price	B.Sc., TAR
Hanes	Meinir	Jones	B.A., M.A., TAR
Hanes, Addysg Gorfforol	Lee	Powell	B.Sc., TAR
Addysg Grefyddol	Hayley	Williams	B'TH.,TAR
Hanes, Addysg Grefyddol	Amy	Griffiths	B.A., TAR

Ieithoedd:

Cymraeg	Stephen	Mason	B.A., TAR
Cymraeg	Nia	MacMillan	B.A., TAR
Cymraeg	Bethan	Hiscocks	B.A., TAR
Cymraeg	Colin	Rees	B.A., TAR
Almaeneg, Ffrangeg, Eidaleg	Loraine	Pedelty	B.A., TAR
Ffrangeg	Sally	Morris	B.A., TAR
Ffrangeg, Cymraeg	Bethan	Jones	B.A., TAR

Y Gyfadran Fathemateg

Mathemateg	Peter	Ward	H.N.C., TAR
Mathemateg	Derek	Howard	B.A., TAR
Mathemateg	Muriel	Thomson	M.A., TAR
Mathemateg	Mary	Stonefield	B.A., TAR
Mathemateg	Rachel	Jones	B.A., TAR

Y Gyfadran Wyddoniaeth:

Gwyddoniaeth, Bioleg	Lucy	Lloyd	B.Sc., TAR
Gwyddoniaeth, Cemeg, Economeg	David	Barlow	B.Sc., TAR
Gwyddoniaeth, Cemeg, Bioleg	Terry	Breen-Smith	B.Sc., TAR
Gwyddoniaeth, Ffiseg	Jane	Owen	B.Sc. TAR
Gwyddoniaeth, Bioleg, Cemeg	Richard	Thomas	B.Sc., TAR
Ffiseg, Mathemateg	Michael	Williams	B.Sc., TAR
Gwyddoniaeth, Bioleg, Cemeg	Sara	Beynon-Thomas	B.Sc., TAR

Pynciau Galwedigaethol:

Technoleg Gwybodaeth	Penny	Hourahane	B.A., TAR
Iechyd a Gofal Cymdeithasol	Ionwen	Spowage	C.Text.T., A.T.I., TAR

Addysg Gorfforol

Addysg Gorfforol, Addysg Bersonol, Cymdeithasol ac Iechyd (ABCI):	Maria	Williams	B.A., TAR
Addysg Gorfforol, ABCI	David	Davies	Tyst Add., B.Add.
Addysg Gorfforol, Saesneg	Sarah	Evans	B.A., TAR

Cerddoriaeth:

Cerddoriaeth	Elin	Ennis	B.A., TAR
Cerddoriaeth	Andrew	Mantle	B.A., TAR

Athrawon Offerynnol sy'n ymweld â'r ysgol:

Alan	Davies	Cello, Dwbl Bas, Gitâr Bas
Michelle	Jenkins	Fiolin a Fiola
Delyth	Blainey Taylor	Canu
Susan	Pryce	Ffliwt, Clarinét, Sacsoffon
Aiden	Hassan	Offerynnau Pres
John	Eyre	Gitâr
Bethan	Rees	Piano

Cymorth Dysgu:	Elizabeth	Evans	B.Sc.. TAR
	Lucy	Bronwin	M.A. (Oxon).

Cymorth i ddisgyblion:	Melinda Kennedy		B.A.
	Esther Sargeant		DIP.AD., Lic.SDC
	Lily	Vaughan	B.A.
	Georgina	Mead	
	Carole	Jones	B.Sc.
	Samantha	Price	
	David	Childs	
	Elizabeth	Price	

Staff nad ydynt yn Addysgu

Rheolwr Busnes:	-	Paul Cartmell M.Phil, B.A, Cert.Ed, Dip.SBM
Derbynnydd:	-	Lynne Evans
Ysgrifennydd Staffio a Cytundebau	-	Sharon Thomas
Cynorthwy-ydd Gweinyddol	-	Bethan Powell
Cynorthwy-ydd Gweinyddol	-	Anna-Marie Price

Staff Technegol

Rheolwr Technegol TG:	-	Ross Thomas
Technegwyr:	-	Carol Allsopp
		NickyFarrugia B.Sc.

Rheolaeth y Safle

Rheolwr y Safle (Adeiladau):	-	Neil	Morris
Rheolwr y Safle: (Tir)	-	George	Jenkins
Goruchwylwraig Ianhau:	-	Julie	Evans
Glanhawyr:	-	Susan	Lewis
		Angela	Lennard
		Linda	Cooper
		Rose	Owen
		Linda	Burton
		Huw	Vaughan
		Margaret	Price
Cynorthwy-ydd cyfleusterau:		Joe	Casey

Y Bwyty

Cogyddes yng ngofal Y Bwyty	-	Christine	Rohan
Cogyddes gynorthwyol		Sandra	Wear
Cogyddesau cynorthwyol		Anne	Pugh
		Sandra	Witherston
		Velma	Hutchinson
		Selina	Jones
		Rosemary	MacIlroy
		Linda	Burton
		Carole	Watkins
		Gaynor	Hughes

		Staff Cymunedol	Ffôn
Swyddog Lles Addysg:	-	Chris Davies	01874 612211
Swyddog Gyrfaol:	-	Rhion Jenkins	01982 551296
Rheolwr y Ganolfan Chwaraeon:	-	Robert Corson	01982 552324

Calendr Ysgol (Gwyliau) 2009/10.

2009

Medi 1 af - Diwrnod HMS

Hydref 23 ain			-	Diwrnod HMS
Hydref 26 ain	-	Hydref 30 ain	-	Hanner Tymor
Tachwedd 2 ail/3 ydd			-	Diwrnod HMS
Rhagfyr 21 ain	-	Ionawr 1 af	-	Gwyliau Nadolig

2010

Chwefror 15 fed	-	Chwefror 19 eg	-	Hanner Tymor
Mawrth 26 ain			-	Diwrnod HMS
Mawrth 29 ain	-	Ebrill 9 fed	-	Gwyliau Pasg
Mai 3 ydd			-	Dydd Calan Mai
Mai 31 ain	-	Mehefin 4 ydd	-	Hanner Tymor
Gorffennaf 16 eg			-	Gwyliau Haf
Gorffennaf 19 eg			-	Diwrnod HMS

CYFYNGIADAU DERBYN

Y cyfyngiadau derbyn yw 120 o ddisgyblion fesul grŵp blwyddyn. Mae rhai blynyddoedd wedi gordanysgrifio ac mae Apeliadau Derbyn yn cael eu cynnal yn rheolaidd. Mae gan bob Blwyddyn 5 o diwtoriaid grŵp, gydag un ohonynt yn grŵp cyfrwng Cymraeg. Ein bwriad yw cadw maint y dosbarthiadau cyn lleied â phosibl ac mae maint y grŵp tiwtoriaid tua 26.

Mae'r manylion hyn yn gywir ar yr adeg cyhoeddi ac mae'n bosibl y byddant yn agored i newidiadau.

GWEITHDREFNAU CYFFREDINOL

PRESENOLDEB

Mae presenoldeb da yn yr ysgol yn hanfodol os yw'r disgyblion i gyflawni eu potensial. Mae absenoldeb o'r ysgol ond yn cael ei awdurdodi pan fydd y plant yn sâl neu oherwydd rhesymau anorfod eraill. Nid ystyrir absenoldeb am resymau, megis taith siopa, ŵyna, neu ymweld â lleoedd adloniant, megis parciau thema, yn absenoldeb awdurdodedig.

Os yw eich plentyn yn absennol o'r ysgol, mae'n bosibl y byddwch yn derbyn galwad ffôn o'r ysgol ar y diwrnod cyntaf i ofyn y rheswm dros ei absenoldeb. Dylai'r myfyrwyr ddod â nodyn dyddiedig (yn cynnwys y rheswm dros eu habsenoldeb) a'i roi i Diwtor y Dosbarth ar y diwrnod y mae'n dychwelyd.

Os yn bosibl, dylid cymryd gwyliau yn ystod gwyliau'r ysgol, ond lle bo angen, gellir gwneud cais i'r Pennaeth am uchafswm o ddeng diwrnod o wyliau ysgol ychwanegol cyn cychwyn y gwyliau. Mae ffurflen wyliau ar gael o Dderbynfa'r Ysgol.

NI DDYLAI UNRHYW DDISGYBL adael yr ysgol heb ganiatâd y Dirprwy Bennaeth neu'r Pennaeth Cynorthwyol.

SALWCH / DAMWAIN YN YR YSGOL
Dylai'r disgyblion sy'n teimlo'n sâl yn yr ysgol fynd at Mrs. Lynne Evans yn y Dderbynfa.

BEICIAU
Dylai beiciau gael eu storio yn y sied feiciau.

CEIR
Ni chaniateir i fyfyrwyr y chweched dosbarth ddod â'u ceir i safle'r ysgol. Ni ddylai'r myfyrwyr yrru ceir ar safle'r ysgol.

EIDDO PERSONOL
Gofynnwn am eich help i sicrhau fod pob eiddo personol wedi'i farcio'n glir ag enw'r perchennog. Gwneir y cais hwn er lles pawb; mae'n anodd dros ben i gael gafael ar eiddo sydd wedi'i golli oni bai fod yr eitem wedi'i farcio'n glir.

Os bydd disgybl yn dod ag arian neu eitemau gwerthfawr i'r ysgol, mae'n rhaid i'r unigolion sydd berchen arnynt eu cadw. Ar ddechrau gwers Ddrama neu Addysg Gorfforol, rhaid trosglwyddo arian neu eitemau gwerthfawr i'r athro. **Ar unrhyw gyfrif, ni ddylid gadael eitemau gwerthfawr neu arian yn yr ystafell gotiau nag yn yr ystafelloedd newid**.

EIDDO SYDD WEDI'i GOLLI
Dylid trosglwyddo pob eitem o eiddo y dewch o hyd iddynt i Reolwr y Safle (Mr Neil Morris).

CYPYRDDAU CLO

Gallwch gadw eich eiddo mewn cwpwrdd clo. Mae blaendal o £5-00 yn daladwy am allwedd i'r cwpwrdd. Ad-delir y blaendal i chi pan dderbynnir yr allwedd yn ôl ar ddiwedd y flwyddyn. Ceisiwch gadw eich allwedd mewn lle diogel ac yn sicr peidiwch â rhoi benthyg yr allwedd i ddisgybl arall. Yr aelodau o'r staff sy'n gyfrifol am y cypyrddau clo yw Mr. Neil Morris a Mr. Steve Jones.

GWISG YSGOL

1. Crys chwys (glas tywyll) gyda logo'r ysgol wedi'i frodio arno.
2. Crys polo (gwyn) gyda logo'r ysgol wedi'i frodio arno.
3. Mae ystod eang o gotiau o liw tywyll, plaen, ar gyfer eu gwisgo y tu allan yn dderbyniol.
4. Esgidiau du neu esgidiau ymarfer du.

Merched

5. Sgert linell 'A' o las tywyll/du neu drowsus wedi'i deilwra mewn glas tywyll / ddu.
6. Sanau gwyn, glas tywyll neu ddu; teits du, glas tywyll neu lwydfelyn.

Bechgyn

7. Trowsus du/llwyd tywyll
8. Sanau tywyll

Gwisg Ysgol yr haf ar gyfer Bechgyn a Merched (Dewisol).

9. Trowsus, tri-chwarter neu siorts ymron hyd at y ben-glin neu ychydig o dan y ben-glin. Ni ddylent fod ag unrhyw logo arnynt, na belt lydan nac unrhyw addurn.
   Esgidiau ymarfer du heb unrhyw logo neu unrhyw addurn arall.

NODYN:
1. **NI** ddylid gwisgo cotiau/siacedi tu mewn i adeilad yr ysgol.
2. Gemwaith - **NI** ddylid gwisgo clustdlysau (caniateir stỳds neu 'sleepers' yn unig, ac un yn unig ar gyfer pob clust. Ni chaniateir modrwyau eraill (er enghraifft: modrwyau/stỳds yn y trwyn). Ni chaniateir unrhyw emwaith arall.
3. Colur - Ni ddylid defnyddio colur sy'n weladwy.

SYLWER Y DYLAI POB DISGYBL WISGO ESGIDIAU DU / ESGIDIAU YMARFER DU O STEIL SYNHWYROL AC NI DDYLID GWISGO SANDALAU GYDA BYSEDD Y TRAED YN AGORED

DILLAD ADDYSG GORFFOROL A GEMAU'R MERCHED

Crys 'T' coch gyda logo'r ysgol	Esgidiau pêl-droed/hoci
Esgidiau ymarfer (Ni ddylai'r gwadnau fod yn ddu neu'n las tywyll)	Sanau gwyn byr
Siorts / siorts beic glas tywyll	Gwisg nofio
Crys rygbi glas tywyll (ar gael o'r ysgol)	

DILLAD ADDYSG GORFFOROL A GEMAU'R BECHGYN

Siorts glas tywyll/crys 'T' coch gyda logo'r ysgol	Gwisg nofio
Sanau pêl-droed glas tywyll	Esgidiau pêl-droed/rygbi
Esgidiau ymarfer (Ni ddylai'r gwadnau fod yn ddu neu'n las tywyll)	
Crys rygbi glas tywyll (ar gael o'r ysgol)	

DEWISOL – AR GYFER Y MERCHED A'R BECHGYN

Trowsus loncian o las tywyll, plaen.	Ar gael o'r ysgol

SYLWER:
1. Gofynnir i rieni anfon nodyn os bydd eu plentyn ddim digon hwylus i gymryd rhan mewn gwers Addysg Gorfforol.
2. Ni ddylid gwisgo gemwaith nac oriawr yn ystod gwersi Addysg Gorfforol a Gemau. Dylid trosglwyddo unrhyw nwyddau gwerthfawr i'r athro sydd yng ngofal y plant.
3. Gofynnir i rieni sicrhau fod cit eu plentyn wedi'i labelu'n glir ag enw'r plentyn er mwyn hwyluso'r trefniant o ran dychwelyd unrhyw eitemau sy'n mynd ar goll.

GRANTIAU AR GYFER GWISG YSGOL

Cynghorir rhieni'r plant hynny fydd yn cael mynediad i Flwyddyn 7 ar ddechrau'r flwyddyn academaidd nesaf fod Cyngor Sir Powys yn cynnig grantiau ar gyfer gwisg ysgol pan fo teuluoedd yn derbyn rhai budd-daliadau. Am fwy o fanylion a ffurflen gais, cysylltwch â Swyddog Lles Addysgol yr Ardal, sef Mr Chris Davies (Rhif ffôn: 01874 612211).

POLISI CODI TÂL

Gwersi offerynnol/canu: £75-00 y tymor. Mae ystod eang o wersi cerdd ar gael gan athrawon teithiol profiadol gyda chymwysterau priodol. Dim ond yn rhannol y bydd rhaid I'r disgyblion dalu'r ffioedd.

Cludiant I'r ysgol: Mae croeso I rieni'r disgyblion hynny sy'n byw tu allan I'r dalgylch gynnig am gludiant dan y Cynllun Lleoedd Gwag dan nawdd yr Awdurdod Leol. Y gost am dymor ar hyn o bryd ydy £85. O Fedi 2011 ymlaen mae dyfodol y cynllun dan fygythiad. Ers blynyddoedd bellach mae'r ysgol.

Ail-eistedd arholiadau: Yr ysgol sy'n talu am arholiadau cyhoeddus y tro cyntaf. Cost ail eistedd arholiad ydy £15 y modiwl.

Gweithgareddau allgyrsiol: Bydd y Pennaeth yn rhoi ystyriaeth sympathetig i unrhyw gais i leihau'r gost mewn achos o galedi.

Gellir gwneud rhandaliadau am unrhyw un o'r uchod. Cysylltwch, os gwelwch yn dda, gyda Mrs. Doreen Houlsby.

DELIO GYDA PHRYDER NEU GŴYN

Mae croeso i Rieni/Warchodwyr gysylltu â'r ysgol gydag unrhyw bryderon sydd ganddynt. A bo gennych bryder ynghylch rhywbeth sy'n digwydd neu ddim yn digwydd yn yr ysgol, yr ydyn yn argymell eich bod yn trafod y mater yn anffurfiol gyda'r athro neu'r Pennaeth. Dylai hyn fod yn fodd i ddatrys y broblem ar unwaith. A bod hynny ddim yn bosib neu fod y mater yn fwy difrifol, cewch gopi o'r Dderbynfa o bolisi'r ysgol ar ddelio gyda chwynion. Fe benodwyd Swyddog Cwynion gan y Corff Llywodraethol a medrwch gysylltu'n uniongyrchol â'r Swyddog hwn. Bydd yr Ysgol yn ymdrin ag unrhyw gŵyn yn drwyadl gan geisio ei datrys cyn gynted â phosib.

GWASANAETHAU BOREOL

Ystyrir gwasanaethau boreol yn achlysuron pwysig pan fo'r myfyrwyr a'r athrawon yn cydgyfarfod er mwyn canolbwyntio ar bynciau sy'n berthnasol i achlysuron penodol. Yma, yn Ysgol Uwchradd Llanfair-ym-Muallt, cynhaliwn bedwar math o wasanaeth boreol: Gwasanaeth yr ysgol gyfan, gwasanaeth y grwpiau blwyddyn, gwasanaethau Tai'r Ysgol, a'r Gwasanaeth Cymraeg. Mae yna elfen ddwyieithog i amryw o'n gwasanaethau. Yn aml, estynnir gwahoddiad i siaradwyr allanol i annerch y disgyblion yn ystod eu gwasanaethau boreol.

Cynhelir Gwasanaeth yr Ysgol Gyfan yn y Neuadd Chwaraeon ac mae'n achlysur i feddwl am bwnc o ddiddordeb i holl gymuned yr ysgol. Mae'r Grwpiau Blwyddyn yn ymdrin ag agweddau sy'n benodol i'w gwahanol grŵp ac yn cael eu trefnu'n aml gan y disgyblion eu hunain. Cynhelir

Gwasanaethau'r Tai ar adegau o'r Flwyddyn Ysgol pan gynhelir cystadlaethau'r Tai, megis Eisteddfod yr Ysgol a'r Diwrnod Chwaraeon. Mae'r Gwasanaethau Cymraeg ar gyfer y dosbarthiadau Mamiaith ac yn cael eu cynnal yn wythnosol.

AMSER CINIO

Anogir pob disgybl i aros ar safle'r ysgol yn ystod amser cinio. Gall disgyblion ym Mlynyddoedd 10, 11, 12 a 13 adael safle'r ysgol a mynd i'r dre, er y gall y Pennaeth wrthod y fraint hon. Mae'n rhaid i'r disgyblion ym Mlynyddoedd 7, 8 a 9 aros ar safle'r ysgol oni bai eu bod yn mynd adref i ginio. Os hynny, mae angen caniatâd ysgrifenedig y rhieni er mwyn iddynt wneud hynny.

EGWYL Y BORE

Rhaid i bob disgybl aros ar safle'r ysgol yn ystod egwyl y bore.

COD YMDDYGIAD

Y rheol ar gyfer yr ysgol yw: **POB UN I WEITHREDU GYDA CHWRTEISI AC YSTYRIAETH TUAG AT ERAILL BOB AMSER.**

GOLYGA HYN:

1. **Y BYDDWCH YN CEISIO DEALL SAFBWYNT POBL ERAILL BOB AMSER,** ac yn ymddwyn mor garedig â phosibl tuag at bawb hyd yn oed os nad ydynt yn ffrindiau i chi.

2. **BYDDWCH YN SIARAD YN FONEDDIGAIDD BOB AMSER** (hyd yn oed os byddwch mewn tymer ddrwg!).

3. **BYDDWCH YN SYMUD GAN BWYLL AC YN DDISTAW O GWMPAS YR YSGOL**. Mae hyn yn golygu na fyddwch yn rhedeg, hyrddio neu'n gweiddi, ond yn hytrach, byddwch yn barod i helpu trwy agor drysau, sefyll yn ôl er mwyn gadael i bobl basio a helpu i gario pethau. CADWCH I'R OCHR DDE ar y grisiau ac mewn lleoedd poblog.

4. **CADWCH YR YSGOL YN LÂN A THACLUS** fel y bydd yn lle croesawgar ac yn lle y gallwn i gyd ymfalchïo ynddo. Mae hyn yn golygu rhoi pob sbwriel yn y biniau, cadw'r waliau a'r dodrefn yn lân heb farciau arnynt a chymryd cryn ofal o'r arddangosfeydd, yn arbennig o ran gwaith pobl eraill.

5. **BYDDWCH YN GWISGO GWISG YSGOL BRIODOL** a phob amser yn edrych yn smart er clod i chi eich hun a'r ysgol.

6. Mae'r ysgol yn **AMGYLCHEDD DI-FWG AC YN AMGYLCHEDD NA CHANIATEIR GWM CNOI** ac ni chaniateir i unrhyw un ysmygu o dan unrhyw amgylchiadau.

7. **TU ALLAN I'R YSGOL WRTH GERDDED YN LLEOL NEU GYDA GRŴP YSGOL, COFIWCH BOB AMSER FOD ENW DA'R YSGOL YN DIBYNNU AR Y MODD YR YDYCH YN YMDDWYN.**

DISGWYLIADAU'R YSTAFELLOEDD DOSBARTH

Yr ystafelloedd dosbarth (gan gynnwys y labordai, y gweithdai, y neuadd chwaraeon a'r stiwdio drama) fydd eich lleoedd gwaith. Fel ag mewn unrhyw ffatri neu swyddfa, mae angen rheolau sy'n glir i'w deall ynghyd â disgwyliadau er mwyn caniatáu i bawb weithio'n llwyddiannus, yn ddiogel a phleserus.

1. Cychwyn y gwersi
   * Cyrhaeddwch mewn pryd.
   * Ewch i'r ystafelloedd yn synhwyrol ac yn syth i'ch gweithle.
   * Dylai cotiau a gwisgoedd ar gyfer y tu allan gael eu gadael yn yr ystafell gotiau neu'r ystafell loceri ac ni ddylid dod â hwy i'r dosbarth.
   * Tynnwch eich llyfrau, pennau ysgrifennu a'ch cyfarpar allan.
   * Rhowch eich bagiau o'r neilltu (nid ar y ddesg).
   * Cadwch yn dawel yn ystod y cofrestru (ac eithrio pan elwir eich enw!)

2. Yn ystod y gwersi
   * Pan fydd yr athro'n siarad â'r dosbarth cyfan, byddwch yn dawel a chanolbwyntiwch.
   * Os gofynnir cwestiwn i'r dosbarth, rhowch eich llaw i fyny er mwyn ateb y cwestiwn: peidiwch â gweiddi allan (oni bai y gofynnir i chi am syniadau brys).
   * Mae'n rhaid i chi ddod â phen ysgrifennu, pensil, riwler, dyddiadur gwaith cartref, unrhyw lyfrau neu ffolderau sydd eu hangen. Mae'n ofynnol i chi gael y cit angenrheidiol ar gyfer gwersi Addysg Gorfforol.
   * Disgwylir i chi weithio'n synhwyrol gyda'ch cyd-ddisgyblion: peidiwch â thynnu eu sylw na'u cythruddo.
   * Os byddwch yn cyrraedd yn ddiweddar heb achos haeddiannol, disgwyliwch gael eich cadw ar ôl am gyhyd o amser ag yr oeddech yn ddiweddar, er mwyn dal i fyny â'r gwaith.
   * Rhaid cofnodi eich gwaith cartref yn eich dyddiadur.
   * Dylech fwyta, yfed a chnoi yn y ffreutur yn unig.
   * Ni chaniateir ipods, chwaraewyr MP3, radios nac unrhyw nwyddau eraill i dynnu eich sylw: byddant yn cael eu cymryd ymaith.
   * Ni ddylech ymadael â'r wers heb ganiatâd yr athro/athrawes.
   * Sicrhewch fod eich ffôn symudol wedi'i switsio i ffwrdd ac ni ddylech ei defnyddio.

3. Ar ddiwedd gwers
   * Nid yw'r gloch yn arwydd i chi: Mae'r gloch er gwybodaeth yr athro.
   * Dim ond pan fydd yr athro yn rhoi caniatâd y dylech bacio eich deunydd.
   * Pan roddir caniatâd, safwch ar eich traed a gwthiwch eich cadeiriau o dan y ddesg; dylech roi unrhyw sbwriel yn y bin.
   * Dim ond pan fydd yr athro yn cadarnhau, y gallwch ymadael â'r ystafell.

YN OLAF, OND YN BWYSIG DROS BEN:
Mae'r athrawon yn cymryd lle eich rhieni/gwarchodwyr tra byddwch yn yr ysgol. Golyga hyn yn arbennig:

   * Nad oes unrhyw reswm dros fod yn anfoesgar, dangos diffyg parch neu haerllugrwydd tuag at yr athrawon.
   * Dylai unrhyw gais rhesymol gan athro gael ei wneud ar unwaith a heb unrhyw ddadl.

Ymdrinnir yn **LLYM IAWN** ag unigolion petai unrhyw un o'r rheolau sylfaenol hyn yn cael eu torri.

IECHYD A DIOGELWCH
Ni chaniateir i ddisgyblion fynd yn agos i Afon Gwy ar unrhyw adeg. Rhaid i'r disgyblion ddarllen y rhybuddion tân a gwybod yr ymarferion tân.

CYMORTH AR GYFER ANGHENION DYSGU YCHWANEGOL

Mae'r Tîm Cymorth Dysgu'n cefnogi pob myfyriwr ac yn weithiol o ran hyrwyddo'u cynnydd academaidd a'u lles emosiynol trwy gydol eu haddysg yn yr ysgol, sef blynyddoedd 7-13. Ar hyn o bryd, rhoddir cymorth i fyfyrwyr sy'n profi anawsterau dysgu ar draws y pynciau a thrwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg.

Darperir, un ai Datganiad ar gyfer myfyrwyr yn amlinellu eu hanghenion Cymorth Dysgu neu maent yn cael eu pennu gan gydweithwyr yn y dosbarthiadau prif ffrwd. Anogir y myfyrwyr i hunangyfeirio ac mae nifer ohonynt yn gwneud hynny. Mae yna bartneriaeth hefyd gyda'r rhieni ac fe'u gwahoddir i drafod pryderon.

Cynigiwn, felly, ystod eang o wasanaethau. Mae hyn yn cynnwys cynorthwyo myfyrwyr sydd â dyslecsia, dyspracsia, awtistiaeth, nam gweledol a nam ar y clyw, anawsterau ieithyddol a chyfathrebu, anawsterau dysgu'n gyffredinol, ac anghenion cefnogi rhifedd. Gweithiwn yn hyblyg ac mewn ffyrdd hollol strwythuredig er mwyn cyflwyno'r gwasanaeth yr ystyriwn sydd o'r ansawdd proffesiynol uchaf. Fe'i hystyrir yn hanfodol fod pob myfyriwr sy'n derbyn ein gwasanaeth yn cymryd rôl weithredol o ran eu dysgu a'u bod yn rhagweithiol wrth drafod eu rhaglenni gwaith. Mae nifer o'n myfyrwyr yn ymgymryd ag astudiaethau yn y chweched dosbarth, gyda chymorth, er mwyn darparu ar gyfer prifysgolion neu gyrchfannau eraill. Rhown bwyslais ar bob myfyriwr i ddatblygu eu sgiliau astudio annibynnol a sgiliau ategol eraill sy'n hanfodol i fywyd oedolyn.

Mae'r Tîm Cymorth Dysgu cyfredol yn cynnwys: Cydlynydd y Tîm Cymorth Dysgu, un athro llawn-amser, Cynorthwywyr Cymorth Dysgu a chymorth rhan-amser gan athro'r Tîm Nam Gweledol a'r Tîm Nam ar y Clyw,

GOFAL BUGEILIOL

Rhoddir blaenoriaeth uchel i Ofal Bugeiliol yn Ysgol Uwchradd Llanfair-ym-Mualt. Dim ond pan fônt yn teimlo'n esmwyth ac yn ddiogel y gall y disgyblion sylweddoli eu llwyr botensial ac er mwyn iddynt gyrraedd hynny, mae gennym Dîm Gofal Bugeiliol cadarn i ofalu am les pob myfyriwr unigol.

Mae pob athro pwnc yn monitro llwyddiannau ac anawsterau'r disgyblion y maent yn eu dysgu, a chynhelir cyfarfodydd bugeiliol y staff i gyd lle gellir gwyntyllu problemau.

Bydd eich plentyn yn cyfarfod yn ddyddiol gyda'r athro sy'n Diwtor ei Ddosbarth. Bydd y Tiwtor Dosbarth yn dod i adnabod pob plentyn yn y grŵp yn fuan a bydd yn ymwybodol o unrhyw broblemau sy'n codi.

Bydd y Tiwtoriaid Dosbarth yn cyfarfod yn rheolaidd gyda Phenaethiaid y Flwyddyn i drafod cynnydd academaidd a bugeiliol pob myfyriwr yn y Flwyddyn, a phenderfynu ar unrhyw gamau gweithredu angenrheidiol. Gall hynny gynnwys cysylltu â'r rhieni. Bydd y Gofal Bugeiliol trwy gydol yr Ysgol yn cael ei fonitro hefyd gan y Dirprwy Bennaeth, y Penaethiaid Cynorthwyol a'r

athrawon a byddant hwythau'n cysylltu â'r rhieni os bydd hynny'n angenrheidiol. Rydym bob amser ar gael i sgwrsio gyda'r rhieni os bydd problem yn gysylltiedig â'r ysgol yn codi yn y cartref.

Tybiwn y dylai partneriaeth fodoli rhwng rhieni/gofalwyr a'r ysgol os yw'r plant i lwyddo. Mae gan Ysgol Uwchradd Llanfair-ym-Muallt bolisi 'drws agored' a hyderwn bob amser y bydd rhieni/gofalwyr yn cysylltu â ni yn union os bydd unrhyw broblem, yn yr un modd ag y bydd yr ysgol yn cysylltu â hwy o dan y fath amgylchiadau.

BWLIO

Yn ddiweddar, mae'r broblem fwlio wedi cael cryn sylw yn y wasg. Mae'n broblem sy'n bodoli i ryw raddau ym mhob sefydliad mawr a byddem yn cymryd agwedd hunanfodlon iawn petaem i honni nad yw bwlio byth yn digwydd yn Ysgol Uwchradd Llanfair-ym-Muallt.

Fodd bynnag, ceisiwn wneud ein gorau i atal hynny a gweithredwn yn union os yw'n digwydd. Tybiwn fod gan bob plentyn yr hawl i gael ei addysgu mewn awyrgylch lle gall ymlacio, heb ofn, a lle gellir dysgu'n effeithiol. Ystyrir unrhyw ymgais fwriadol i atal hynny yn weithred o fwlio.

Mae'r disgyblion yn cael eu haddysgu'n rheolaidd am fwlio yn ystod y gwasanaethau boreol a'r gwersi Addysg Bersonol a Chymdeithasol. Fe'u haddysgir nad ymosodiadau corfforol yn unig yw bwlio, ond yn hytrach gall fodoli mewn amryw o ffyrdd, sef galw enwau, difrodi neu guddio eiddo, lledaenu sibrydion neu anwybyddu disgybl arall yn fwriadol. Anogir y plant i droi at unigolyn dibynadwy ar unwaith yn hytrach na cheisio delio â'r broblem eu hunain.

Cynhelir sgwrs ar unwaith gyda'r plant sy'n bwlio gan ei bod yn bosibl bod angen cwnsela arnynt hwy eu hunain. Cymerir camau pellach, megis cysylltu â'r rhieni, os anwybyddir y rhybudd gwreiddiol. Mewn achosion difrifol, mae'n bosibl y bydd yr ysgol yn cysylltu â'r rhieni'n union.

Credwn mai cymharol fechan yw'r achosion bwlio yn Ysgol Uwchradd Llanfair-ym-Muallt, ond rydym bob amser yn ceisio gwarchod rhag hunanfodlonrwydd. Dylai unrhyw rieni sy'n credu fod eu plentyn yn dioddef ar law bwlïaid gysylltu â'r ysgol ar unwaith.

RHAGLEN ADDYSG BERSONOL, CYMDEITHASOL AC IECHYD

Mae pob disgybl Blwyddyn 7 yn Ysgol Uwchradd Llanfair-ym-Muallt yn derbyn gwers o 50 munud yr wythnos ar Addysg Bersonol, Cymdeithasol ac Iechyd. Mae'r gwersi hyn yn rhan hanfodol o Gyfundrefn Fugeiliol gyffredinol yr ysgol ac maent yn ymdrin ag agweddau pwysig o fywyd ac agweddau nas ymdrinnir â hwy bob amser fel rhan o'r cwricwlwm academaidd. Gobeithiwn helpu ein myfyrwyr i dyfu'n oedolion aeddfed, sy'n medru delio'n hyderus gyda'r nifer o ddewisiadau anodd sy'n eu hwynebu mewn byd sy'n fwyfwy cymhleth.

Gweler isod amlinelliad byr o'r pynciau sy'n cael eu cynnwys ym mhob grŵp blwyddyn.

Blwyddyn Saith
Trosglwyddo i'r ysgol uwchradd. Cyfryngu Cyfoedion. Diogelwch – Diogelwch y Ffyrdd, Diogelwch rhag Tân, rôl yr Heddlu, Diogelwch Trydan, Addysg Rhyw – Llencyndod a'r Misglwyf, Addysg Gyffuriau – peryglon Alcohol a Thybaco.
Addysg Gyrfaoedd - Ymweld â'r Llyfrgell Gyrfaoedd a chyflwyniad i Adnoddau Gyrfaol.

Blwyddyn 8 a Blwyddyn 9.
Prif thema Addysg Bersonol a Chymdeithasol ym Mlwyddyn 8 a Blwyddyn 9 yw 'Ffordd o Fyw Iach'. Yn ystod y ddwy flynedd hyn, mae'r disgyblion yn dilyn "cylchdro" pan fyddant yn astudio'r elfennau canlynol yn eu tro. Bydd y disgyblion yn astudio pob un o'r pynciau hyn yn ystod un wers yr wythnos am dymor cyfan.

Blwyddyn Wyth	Blwyddyn Naw
Maeth	Drama (sy'n berthnasol i agweddau'n ymwneud ag iechyd)
Dinasyddiaeth	Addysg Rhyw – Rhaglen APAUSE
Camddefnydd o sylweddau	Canllawiau Gyrfaoedd ac Addysg yn Berthnasol i Waith

Blwyddyn 10
Addysg Gyffuriau ac Alcohol. Addysg Rhyw – Rhaglen APAUSE – Atal Cenhedlu, HIV ac AIDS.
Addysg Iechyd – Maeth ac ymarferion.
Addysg Gyrfaoedd, Profiad Gwaith/Addysg mewn Diwydiant.

Blynyddoedd 11, 12 a 13
Rhoddir cryn bwyslais hefyd ar y sgiliau sydd eu hangen ar gyfer Dewis Gyrfa, Ffurflenni Cais a Chyfweliadau a hefyd o ran dewis cyrsiau ar gyfer Addysg Bellach ac Addysg Uwch. Mae Addysg Bersonol, Cymdeithasol ac Iechyd yn elfen bwysig o Fagloriaeth Cymru. Pan fo'n bosibl, estynnir gwahoddiad i siaradwyr gwadd o'r gymuned leol i ymweld â'r ysgol ac i annerch y myfyrwyr.

Sylwer: Tynnu allan o Ddosbarthiadau Addysg Rhyw, Addysg Bersonol, Cymdeithasol ac Iechyd.
Mae gan rieni neu warchodwyr yr hawl i dynnu eu plant allan o ddosbarthiadau Addysg Rhyw, Addysg Bersonol, Cymdeithasol ac Iechyd, os byddant yn dymuno hynny.

ADDYSG CYFRWNG CYMRAEG

Yng Nghymru, mae'n fantais aruthrol i fod yn ddwyieithog, yn o leiaf Cymraeg a Saesneg. Mae gan unigolyn sy'n siarad dwy iaith amrediad ehangach o sgiliau nag unigolyn sy'n siarad un iaith. Rydym yn hyrwyddo dwyieithrwydd ac mae pob un o'n disgyblion yn astudio Cymraeg hyd ddiwedd Blwyddyn 11. Yn ychwanegol, cynigiwn y cyfle i astudio mwyafrif y pynciau trwy gyfrwng y Gymraeg. Gelwir hyn yn Addysg Cyfrwng Cymraeg.

Mae Addysg Cyfrwng Cymraeg wedi bod yn fwyfwy llwyddiannus ers ei datblygu yn yr ysgol ym 1994. Ysgol Uwchradd Llanfair-ym-Muallt yw'r ysgol ddynodedig yng nghanol Powys ar gyfer Addysg Cyfrwng Cymraeg. Ysgol Ddwyieithog ydy Ysgol Uwchradd Llanfair ym Muallt. Mae'r ysgol yn perthyn I gategori 2C sy'n golygu bod 50%-79% o'r pynciau (ac eithrio Saesneg) yn cael eu dysgu trwy gyfrwng y Gymraeg yn y ffrwd Gymraeg. Bydd disgyblion y Ffrwd Cyfrwng Cymraeg yn debygol o fod wedi ymuno â'r ysgol o'r 4 ysgol gynradd sy'n bwydo, sef ysgolion sydd â Ffrydiau Cyfrwng Cymraeg. Yr ysgolion hyn yw Ysgol Gynradd Llanfair-ym-Muallt, Ysgol Dolafon (Llanwrtyd), Ysgol Trefonnen (Llandrindod), Ysgol Bryntirion (Rhaeadr), er weithiau, bydd disgyblion yn ymuno â'r ysgol o ysgolion cynradd eraill.

Mae Tiwtor Grŵp Cyfrwng Cymraeg ym mhob Blwyddyn. Oherwydd poblogrwydd Addysg Cyfrwng Cymraeg, mae maint grwpiau'r Tiwtor, ar gyfartaledd, tua 18 o ddisgyblion. Bob blwyddyn yng Nghyfnod Allweddol 3, 4 a Blwyddyn 12, ceir tiwtor dosbarth Cymraeg.

Mae'r disgyblion yn dilyn yr un cwricwlwm â disgyblion yn y Ffrwd Saesneg ar wahân i'r ffaith eu bod yn astudio'r pynciau canlynol trwy gyfrwng y Gymraeg:

Cymraeg, Gwyddoniaeth, Daearyddiaeth, Hanes, Addysg Grefyddol, Cerddoriaeth, Dylunio, Celf, TG, Gwers Ddosbarth.

Fe'u haddysgir fel grŵp o allu cymysg ar gyfer y pynciau hyn. Ein bwriad yn y dyfodol yw datblygu'r amrediad o bynciau i'w cynnig trwy gyfrwng y Gymraeg.

Ar hyn o bryd, mae chwech o gyrsiau lefel A Cyfrwng Cymraeg ar gael:
Cymraeg, Bioleg, Cerdd, Daearyddiaeth, Hanes, a Chymhwyster Bagloriaeth Cymru.

Maint y dosbarthiadau ac adnoddau addysgu.

Mae'r dosbarthiadau Cyfrwng Cymraeg yn llai o ran maint na'r dosbarthiadau Cyfrwng Saesneg ac mae niferoedd y disgyblion tua 18. O ganlyniad i lwyddiant a datblygiadau'r sector Cyfrwng Cymraeg Cynradd, gwelwyd twf yn ddiweddar yn ein dosbarthiadau cyfrwng Cymraeg. Addysgir myfyrwyr y Cyfrwng Cymraeg gan athrawon profiadol, sy'n siaradwyr Cymraeg rhugl gyda chymwysterau rhagorol.

Er mwyn diwallu anghenion unigol pob disgybl, rydym yn ehangu ein hadnoddau'n gyson ac mae amrediad cynyddol o lyfrau newydd a deunydd addysgu wedi'u cynhyrchu. Mae Cysgair (geiriadur Cymraeg-Saesneg) wedi'i osod ar bob cyfrifiadur, hefyd gwiriwr sillafu a gramadeg Cymraeg yn ogystal â ffontiau Cymraeg.

Mae ystafelloedd y dosbarthiadau Cymraeg wedi'u lleoli ar lawr gwaelod yr adeilad newydd sydd wedi'i adeiladu'n bwrpasol.

Cludiant a chysylltiadau gydag ysgolion cynradd sy'n bwydo

Ysgol Uwchradd Llanfair-ym-Muallt yw'r ysgol ddynodedig ar gyfer darparu Addysg Cyfrwng Cymraeg yng nghanol Powys a gall disgyblion drosglwyddo, heb unrhyw gost, o Ysgolion Cynradd Trefonnen, Dolafon, Rhaeadr a Llanfair-ym-Muallt.

Darperir cludiant yn rhad ac am ddim gan Gyngor Sir Powys.

Cyfleoedd Allgyrsiol

Bydd disgyblion sy'n derbyn eu haddysg trwy gyfrwng y Gymraeg a thrwy gyfrwng y Saesneg yn gallu mwynhau amrediad rhagorol o weithgareddau allgyrsiol. Yn ychwanegol at gynnig amrediad o bynciau trwy gyfrwng y Gymraeg, anogwn y disgyblion i gymryd rhan mewn ystod eang o weithgareddau allgyrsiol sy'n hyrwyddo pob agwedd o ddiwylliant a threftadaeth Gymreig. Mae'r disgyblion yn cymryd rhan mewn amryw o weithgareddau'r Urdd ac mae'n Cydlynydd Cyfrwng Cymraeg yn ymweld yn rheolaidd â'r ysgolion Cynradd er mwyn trefnu prosiectau ar y cyd. Er enghraifft, ymwelodd nifer o'r disgyblion a'u hathrawon â Phatagonia er mwyn archwilio'r cysylltiadau rhwng Cymru a De America. Croesawn hefyd amryw o ymwelwyr, gan gynnwys beirdd ac awduron Cymraeg a chynigiwn gysylltiadau helaeth gyda sefydliadau Cymraeg eu hiaith o fewn y gymuned leol.

Y CWRICWLWM

Mae'r tabl isod yn dynodi'r nifer o wersi 50 munud yr un yn wythnosol:

Cyfnod Allweddol 3

Bl	Saes-neg	Cym-raeg	Mathem-ateg	Gwydd-oniaeth	Ieith-oedd Ffr/Alm	Adn. Dynol Hanes/ Daear./ Add. Gref	TD / Celf	Cerdd	Add Gorff	Sgiliau All-weddol	ABCh ac Iechyd
7	4	3	4	3	3	5	3	1	2	1	1
8	4	3	4	3	3	5	3	1	2	1	1
9	4	3	4	3	3	5	3	1	2	1	1

Cyfnod Allweddol 4

Cynigiwn ystod eang o Opsiynau ac mae'r Blociau Opsiwn wedi'u trefnu er mwyn diwallu gofynion pob grŵp blwyddyn, ac felly, byddant yn amrywio o flwyddyn i flwyddyn. Fe'u gwneir gan Flwyddyn 9 yn nhymor y Gwanwyn.

Pynciau craidd gorfodol:

Saesneg a Llenyddiaeth Saesneg	Cymraeg	Mathemateg	Gwyddoniaeth	Addysg Grefyddol	Addysg Gorff	Sgiliau Allweddol
4 gwers	4 gwers	4 gwers	3 gwers	1 wers	1 wers	1 wers

Blociau Opsiwn TGAU: (Bydd y disgyblion yn dewis un pwnc o bob un o'r 4 bloc o opsiynau)

Opsiwn A	Opsiwn B	Opsiwn C	Opsiwn D
3 gwers	3 gwers	3 gwers	3 gwers

Datblygiad y Plentyn, DTh-Deunyddiau Gwrthiannol, Hanes	Hanes, Ffrangeg, Astudiaethau'r Cyfryngau, Add. Gorff., Daearyddiaeth	Cerddoriaeth, Daearyddiaeth, Addysg yn y Gweithle, Celf, Drama, Almaeneg, Arlwyo	Gwyddoniaeth, Busnes, Addysg yn y Gweithle, Gwyddoniaeth Ychwanegol, DTh Tecstiliau

Y CHWECHED DOSBARTH

Gall y myfyrwyr ddewis ystod eang o gyrsiau ac rydym yn ymfalchïo yn y ffaith fod mwyafrif y cyrsiau'n cael eu dysgu trwy 5 (Bl.12) neu 6 (Bl. 13) o wersi 50-munud yn wythnosol. Trafodir dewisiadau pynciau gyda Bl. 11 yn ystod tymor y Gwanwyn. Cynigir chwech cwrs cyfrwng Cymraeg ar hyn o bryd: Cymraeg, Bioleg, Cerdd, Daearyddiaeth, Hanes, Cymhwyster Bagloriaeth Cymru.

Mae'r tabl isod yn dangos yr opsiynau cwricwlaidd ar gyfer Blwyddyn 12 fel y mae ym mis Medi 2009, ond mae blociau'r opsiynau'n cael eu trefnu er mwyn diwallu anghenion pob grŵp blwyddyn ac felly, mae'n debygol y byddant yn gwahaniaethu o flwyddyn i flwyddyn.

Opsiwn A **5 gwers**	**Opsiwn B** **5 gwers**	**Opsiwn C** **5 gwers**	**Opsiwn D** **5 gwers**	**Opsiwn E** **5 gwers**	+	**Cymhwyster Bagloriaeth Cymru** **2 wers**
BTEC Lletygarwch ac Arlwyo Ffiseg Saesneg Cerddoriaeth	Busnes Cemeg Astudiaethau Cyfathrebu Cymraeg Ffrangeg Almaeneg	Drama Iechyd a Gofal Cymdeithasol Hanes	Celf a Dylunio Bioleg Dylunio Cynnyrch DTh Tecstiliau Cymraeg Cerddoriaeth	Daearyddiaeth Technoleg Cerdd Mathemateg Hanes Addysg Gorff. Addysg Gref.		Tiwtorial 1:1 Sgiliau Allweddol Profiad Gwaith Addysg Bersonol a Chymdeithasol Cymru, Ewrop a'r Byd Ieithoedd Gwasanaeth Cymunedol

Rydym o'r farn fod tiwtor y Chweched Dosbarth yn chwarae rhan bwysig iawn fel mentor dysgu ac rydym yn ymfalchïo yn y ffaith fod y myfyrwyr yn cyfarfod mewn grwpiau tiwtor bychain (llai na 10 myfyriwr fel arfer) yn rheolaidd. Bydd pob myfyriwr yn derbyn tiwtorial 1:1 bob hanner tymor.

Rydym wedi cynnig Cymhwyster Bagloriaeth Cymru yn llwyddiannus am nifer o flynyddoedd. Cymhwyster cyffredinol yw hwn sy'n cydnabod yr amrediad eang ac amryw brofiadau dysgu a sgiliau ein myfyrwyr. Nid yw'n cymryd lle'r Lefel A na'r Lefel UG (Uwch Gyfrannol), ond mae'n gymhwyster ychwanegol sy'n cydnabod y sgiliau sydd gan fyfyrwyr ar wahân i'r rhai y gellir eu sicrhau trwy lwybrau academaidd a galwedigaethol traddodiadol. Mae Cymhwyster Bagloriaeth Cymru'n cyfateb i Radd A mewn Lefel A ac yn werth 120 o bwyntiau tuag at fynediad i Brifysgol.

GWAITH CARTREF

Mae gwaith cartref yn cael ei osod yn rheolaidd yn y mwyafrif o bynciau a bydd yn cynyddu fel bo'r myfyrwyr yn mynd yn hŷn. Ar ddechrau'r flwyddyn ysgol, rhoddir dyddiadur gwaith cartref i bob myfyriwr a dylid cofnodi pob gwaith cartref ynddo. Dylai'r rhieni gadw golwg ar y dyddiadur a'i arwyddo'n rheolaidd er mwyn sicrhau bod y gwaith cartref yn cael ei gofnodi a'i gyflawni.

Gall gwaith cartref fod yn waith ysgrifenedig, darllen neu'n waith ymchwil. Os bydd y gwaith cartref yn cael ei orffen yn gynnar, mae darllen ychwanegol bob amser yn fuddiol. Mae nifer o'r athrawon yn caniatáu mwy nag un noson i orffen y gwaith cartref er mwyn caniatáu ychydig o hyblygrwydd wrth drefnu eu hamser astudio yn y cartref. Dylai'r trefniant hwn helpu i atal rhag gormod o bynciau'n pentyrru ar un noson benodol. Byddai'n fuddiol petai rhieni'n neilltuo awr bob nos, yn arbennig o ran myfyrwyr iau, pan all y plentyn eistedd mewn lle tawel i wneud ei waith cartref ac i ddarllen. Gall diddordeb a chymorth y rhieni ar yr adeg yma fod yn fuddiol iawn i'r plentyn o ran trefnu a meithrin arferion da ar gyfer y blynyddoedd ysgol sydd i ddod.

Darpariaeth Gwaith Cartref yn wythnosol

	Blynyddoedd 7 ac 8	Blwyddyn 9	Blynyddoedd 10 ac 11
Saesneg	**1 x 30 munud ac 1 x 30 (darllen)**	**1 x 30 munud ac 1 x 30 (darllen)**	**1 x 40 munud ac 1 x 40 (darllen)**
Cymraeg	**1 x 30 munud ac 1 x 30 (darllen)**	**1 x 30 munud ac 1 x 30 (darllen)**	**1 x 40 munud ac 1 x 40 (darllen)**
Mathemateg	**1 x 30 - 40 munud**	**1 x 30 - 40 munud**	**1 x 30 - 60 munud**
Gwyddoniaeth	**1 x 30 munud**	**1 x 30 munud**	**1 x 20 – 30 munud yr un - Bi, Cem, Ffis**
Dyniaethau	**1 x 20 yr un - Daear. Hanes, Add. Gref.**	**1 x 20 yr un - Daear. Hanes, Add. Gref.**	**1 x 30 yr un - Daear. Hanes, Add. Gref.**
Ieithoedd	**1 x 20 munud**	**1 x 20 munud**	**1 x 60 munud ar gyfer Cwrs TGAU**
Cyrsiau Dylunio	**1 x 20 munud**	**1 x 20 munud**	**1 x 60 munud ar gyfer Cwrs TGAU**
Celf	**1 x 20 munud**	**1 x 20 munud**	**1 x 60 munud ar gyfer Cwrs TGAU**
Cerddoriaeth	**1 x 20 munud**	**1 x 20 munud**	**1 x 60 munud**
Add Gorff., TG, Bagloriaeth Cymru, Drama, Busnes.	**Fel bo angen**	**Fel bo angen**	**1 x 60 munud**

Canlyniadau Lefel A - Awst 2009

Canran yr ymgeiswyr ym mhob lefel gan nodi'r graddau o'r ansawdd uchaf a gyflawnwyd

	Gradd A	Gradd B	Gradd C	Gradd D	Gradd E
YU Ll. ym M.	46%	15%	19%	8%	10%
Powys	25%	28%	25%	14%	7%
Cymru	25%	27%	25%	15%	7%

Llongyfarchiadau i Flwyddyn 13; mae mwyafrif ohonynt wedi sicrhau eu Haddysg Uwch mewn Prifysgol o'u dewis. Mae nifer o'r myfyrwyr wedi cymryd blwyddyn i ffwrdd.

Tueddiadau yng nghanlyniadau Lefel A yn Ysgol Uwchradd Llanfair-ym-Muallt fel y gwelir o'r canrannau A a B

	2001	2002	2003	2004	2005	2006	2007	2008	2009
YULl-y-M	50.9%	53.2%	39%	64%	64%	75%	63.9%	70.9%	61%
Powys	46.7%	50.0%	50.3%	52.2%	54.7%	56.2%	51.5%	53.9%	53%
Cymru	Amherth-nasol	46.2%	48.1%	48.8%	48.9%	49.4%	50%	50.9%	42%

Mae Ysgol Uwchradd Llanfair-ym-Muallt yn ganolfan beilot ar gyfer Diploma Uwch, Cymhwyster Bagloriaeth Cymru. **Ym mis Awst 2009, sicrhaodd 28 o Fyfyrwyr Blwyddyn 13 y cymhwyster hwn gan elwa ar radd A ychwanegol ar gyfer eu Lefel A.**

Nid yw Cymhwyster Bagloriaeth Cymru'n cymryd lle'r Lefel A. Yn hytrach, mae'n cydnabod sgiliau a phrofiadau gwir haeddiannol y myfyrwyr o fewn Cwricwlwm cyfoethocach y Chweched Dosbarth.

Bu canlyniadau ein harholiadau'n rhagorol unwaith eto eleni. Sicrhaodd un myfyriwr eithriadol 690 o bwyntiau UCAS ac aeth tri myfyriwr i astudio meddyginiaeth. Bydd un myfyriwr yn astudio ym Mhrifysgol Caergrawnt.

Canlyniadau TGAU - Awst 2009

% Disgyblion Blwyddyn 11 sydd wedi sicrhau o leiaf 5 o raddau A*- C

Ysgol Uwchradd Llanfair-ym-Muallt: 63%

Mae canran yr ymgeiswyr ym mhob lefel yn dangos ansawdd rhagorol y canlyniadau.

	A*	A	B	C	D
Merched	10.3%	17.5%	23.4%	30.8%	11.9%
Bechgyn	5.1%	14.8%	16.2%	31.2%	18.3%
Pob disgybl YULl-y-M	7.5%	16.1%	19.5%	31%	15.3%
Cyfartaledd Powys	8.4%	15.1%	21.2%	30%	14.2%
Cyfartaledd Cymru	6.2%	12.7%	18.5%	28%	17.2%

Cydnabyddwn na all pob disgybl gyrraedd y graddau uchaf, ond ein bwriad yw cyfateb cyraeddiadau i botensial personol.

Cafwyd nifer o lwyddiannau gwych ym mhob lefel. Da iawn pob un!

Un o'r dangosyddion a ddefnyddir yn aml i ddynodi Gwerth Ychwanegol yw Amcangyfrif yr *FFT (Family Fischer Trust)*. Yn ôl dangosyddion yr FFT, nodwyd gwerthoedd positif:

- canran y disgyblion a sicrhaodd 5+ A* - C yn 1%
- canran y disgyblion a gyflawnodd y Dangosydd Pynciau Craidd yn 5%.

Mae'r gwerthoedd hyn yn adlewyrchu'r dyheadau uchel sydd gennym ar gyfer pob un o'n disgyblion.

Mae Dangosydd y Pynciau Craidd o ran TGAU yn dangos canran y disgyblion a gyflawnodd o leiaf radd C, neu'n uwch, mewn Cymraeg neu Saesneg, ac mewn Mathemateg ac mewn Gwyddoniaeth.

Dangosydd y Pynciau Craidd mewn TGAU	DPC
Ysgol Uwchradd Llanfair-ym-Muallt	57.3%

<u>Canran y llwyddiannau yn y pynciau craidd</u> : Cymraeg, Saesneg, Mathemateg a Gwyddoniaeth, fel y gwelir isod:

% y disgyblion a gyflawnodd radd C neu'n well	**Ysgol Uwchradd Llanfair-ym-Muallt**
Saesneg	71%
Cymraeg a Chymraeg (2^{il} Iaith)	83%
Mathemateg	72%
Gwyddoniaeth	69%

<u>Canlyniadau Cyfnod Allweddol 3 – Gorffennaf 2009</u>

Y lefel genedlaethol a ddisgwylir i ddisgyblion Blwyddyn 9 i'w chyflawni ar ddiwedd CA3 yw Lefel 5.

Bydd rhai disgyblion yn cyflawni lefelau uwch a rhai'n cyflawni lefelau is. Targed yr ysgol yw y bydd pob disgybl yn cyflawni o leiaf un a hanner lefel yn uwch nag asesiadau CA2 yn yr ysgol gynradd.

<u>Canrannau'r disgyblion sy'n cyflawni pob lefel yn y pynciau craidd.</u>

	Saesneg	**Cymraeg**	**Mathemateg**	**Gwyddoniaeth**
Lefel 7	9%	6%	31%	3%
Lefel 6	36%	35%	37%	49%
Lefel 5	45%	41%	27%	39%
Lefel 5+ yn Ysg. U. Ll-y-Muallt	90%	82%	95%	91%
Lefel 5+ yng Nghymru	70%	75%	73%	76%

<u>Dangosydd Pynciau Craidd (DPC) yng Nghyfnod Allweddol 3</u>

Mae'r dangosydd yn mesur y % o ddisgyblion sy'n cyflawni lefel 5 neu'n well mewn Saesneg neu Gymraeg, <u>ac</u> mewn Mathemateg <u>a</u> Gwyddoniaeth.

DPC Ll-ym-Muallt	86%
Cymru Gyfan	61%

Pontio Disgyblion yr Ysgolion Cynradd ym Mlwyddyn 6

Bydd pob rhiant disgyblion ym Mlwyddyn 6 yn derbyn llyfryn a gynhyrchwyd gan Gyngor Sir Powys, sef "Gwybodaeth i Rieni" sy'n cynnwys manylion am ysgolion uwchradd ledled Powys. Mae'r llyfryn hwn yn cynnwys y ffurflen a all sicrhau lle i'ch plentyn mewn ysgol uwchradd o'ch dewis. Dylech ddychwelyd y ffurflen at Bennaeth eich ysgol gynradd cyn gynted â phosibl.


New Building
Buses
Key
HT - Head Teacher
DH - Deputy Head
AH - Assistant Headteacher
HoY - Heads of Year
Sports Hall
Sixth Form
Site Manager
group markers
Bus Waiting Area & Fire Assembly Point
Reception
HT
Visitor Entrance
DH
IT3
Library
D1 Drama Studio
PUPIL ENTRANCE
D7 Textiles
D2 Food
WC (F)
IT Manager
PUPIL ENTRANCES
Admin
AH
WC (M)
Eng Staff room
S4
S6 Biology
Prep
S7 Biology
WC (F)
LIFT
WC (M)
IT2
D3 Design Tech
S5 Physics
E6 Eng
E4 Eng.
E5 English
HoY
S3 Physics
S2 Chemistry
S1 Chemistry
IT4
Boiler House
D6 Design Tech.
D5 Graphics
D4 Art
Office
New Building
Key:
AH - Assistant Headteacher
HoY - Heads of Year
LZ - Learning Zone


Lower Floor
Upper Floor
PUPIL EXIT
Lift
Mu1
Mu2
C3
Mu
Boiler Room
C4
C2
C1
WC (F)
WC (M)
IT1
PUPIL ENTRANCE
Kitchen
Lift
Hot Food
Y Bwyty
Cold Food
Art Store
A1


L8 Maths
L7 Maths
L6 Maths
HoY
L5 Maths
E1 English
L4
L3
L2 French
E3 Eng
E2 Eng
AH
Cover Supervisor
UPPER FLOOR